

Môr o Blastig!!

O blith holl ohebwy'r newyddion gwledydd byd, prin fod yna gymeriad anwylach na Syr David Attenborough.

Cyflwynodd lu o raglenni ar fyd natur ar hyd ei yrfa, gan addysgu a lobbio dros bolisiau gwyrdd, iechyd a diogelwch anifeiliaid a glendid yr amgylchedd. O blith ei ymdrechion dros y degawdau, efallai mai'r frwydr fwyaf oedd tynnu sylw at y modd bydd gwledydd yn caniatáu i ddeunyddiau plastig gael eu rhyddhau i'r moroedd.

Bellach ceir cymaint o ddeunydd plastig yn y moroedd, fel bod pysgod ac adar yn cael eu denu i'w fwyta. Dywed y bydd cyn hir mwy o ddarnau plastig yn y moroedd nag sydd o bysgod.

Bydd hyn yn ei dro yn achos perygl enfawr i'r ddynoliaeth, gan ein bod wrth fwyta pysgod, yn bwyta'r plastig sydd yng nghyrrff y pysgod. Perygl amlwg arall yw'r modd bydd y deunyddiau hyn yn creu rhwystrau i bysgod ac anifeiliaid.

Mae'r darluniau o'r gwastraff plastig yn eithriadol ac erchyll. Os yw'r sefyllfa ym Mhrydain yn wael, mae'r hyn a welir yn y Caribî yn eithriadol wael. Mae'r hyn nas gellir ei weld, ond sy'n creu arswyd ar waelod y môr yn llawer gwaeth eto. Darganfuwyd gwerth plastig yn y 1950au ac ni welwyd y peryglon am hanner canrif.

Bellach byddwn yn defnyddio plastig at bob math o

ddibenion, ac mae'r oll yn hwylus i gynifer. Bu llawer o ymchwil ar y modd i ail-gylchu, ond mae canran sylweddol ohono yn cael ei ddefnyddio unwaith yn unig cyn cael ei waredu.

FFAITH 1

YN ÔL MUDIAD GREENPEACE MAE 12.7 MILIWN O DUNELLI O BLASTIG YN CAEL EU TAFLU I FOROEDD Y BYD YN FLYNYDDOL.

Yn dilyn ffilm David Attenborough 'Blue Planet II', a'i amrywiol raglenni ar 'Fywyd ar y Blaned', byddwn yn fwyfwy ymwybodol o'r peryglon, ond dengys arolygon barn fod canran sylweddol yn dal i brynu poteli plastig o ddŵr cyn eu lluchio'n ddefeddwl. Ceir wyth miliwn tunnell o wastraff plastig bob blwyddyn, ac nid oes

ateb gwyddonol eto i'r modd orau o'i waredu. Bydd tai bwyta a gwstai yn ddigon parod i ddefnyddio platiau, cyllyll a ffyrac plastig ac yna eu taflu ar ôl yr un defnydd. Mae'n anodd prynu pecyn o frechdanau bellach heb fod y bywyd wedi cael ei lapio

FFAITH 2

YN YSTOD 3 MIS CYNTAF 2018 AR UN TRAETH YN UNIG YM MRO GŴYR CODWYD DROS 3.4 TUNNELL O WASTRAFF NEILON A PHLASTIG.

gan blastig. Bydd swyddfeydd yn defnyddio cwpanau dŵr plastig a byddwn ninnau yn ddigon difeddwl yn manteisio arnynt, gan nad oes dewis arall yn y manau hyn.



'A gwelodd Duw y cwbl a wnaeth, ac yr oedd yn dda iawn...'

Tybed?

Bellach clywsom fod tro ar fyd, a bod archfarchnadoedd fel Tesco wedi ymroi i beidio defnyddio deunydd plastig wrth gyflwyno bywyd yn cario eu labeli eu hunain, a bod cwmni fel Iceland wedi dechrau cynnig arbrwf yn Fulham o roi taleb gwerth 10 ceiniog am bob bag plastig sy'n cael ei ddychwelyd i'w siop.

Ymrwymodd McDonald's i wahardd gwellt sugno plastig o'u busnesau, a da hynny. Byddwn yn clywed am fwy o siopau eraill, Ikea yw'r diweddaraf, i

ddileu eu defnydd o blastig erbyn 2019. Ni fyddant yn defnyddio cwpanau plastig na gwellt sugno yn eu hardaloedd caffi, a chlywsom am siopau coffi yn penderfynu cynnig cwpanau papur neu blastig aml ddefnydd yn lle'r math sydd ond yn cael eu defnyddio unwaith.

Heb os, mae pob cam yn un pwysig ac mae'n siŵr y byddwn yn clywed am gwmnïau a llywodraethau yn ymuno yn y fintai hon.

Serch hynny, erys sawl anhawster nad oes, hyd yma ddatrysiad iddynt. Rhaid i bob un wneud popeth sy'n bosibl i leihau'r plastig sy'n cael ei ddefnyddio, gan droi at bapur neu gardfwrdd lle bo hynny'n bosibl. Pe byddem yn prynu a defnyddio poteli metal personol drwy'r amser, a defnyddio cwpanau a deunydd cegin nad yw'n blastig byddai hynny'n syniad cadarnhaol.

Bydd casglu'r plastig sydd yn y moroedd yn her enfawr, ond mae'n bwysig gwneud.

(parhad ar dudalen 2)

Gweledigaethau sgwrs y byd

Y tocyn hud

Bobol bach. Fe fu haf 2018 yn sobor o boeth ar adegau.

Ac mi roedd hi'n boeth gyda'r hwyr y noson honno. Cyn i'r cyngor am beidio a defnyddio'r biben ddŵr rwystro'r drochfa nosweithiol llifai ffrydiau bywiol i daenellu planhigion gwywedig gan wres y dydd. Bron na chlywn pob blodyn a phlanhigyn tomato'n y tŷ gwydr yn sisial 'Gwna fi fel pren planedig ...'



Codai'r lleuad yn llawn dros ael y bryn tra oedai'r haul i ymfrostio'n ei wawl ei hun a brolio ei ogoniant wrth iddo fachlud.

Wedi cuddio gyhyd dros fisoedd tywyll y gaeaf byddai rhywun yn tybio y byddai'r haul wedi bod ychydig yn fwy gostyngedig a swil. Ond na. Dyma'r 'priodfab sy'n dod allan o'i ystafell, yn llon fel pencampwr yn barod i redeg cwrs.' Ac roedd y pencampwr gyda'r hwyr y noson honno am oedi i dderbyn cymeradwyaeth y greadigaeth ar derfyn ei ras ddyddiol.

Ond roedd rhywbeth yn dweud wrthyf na chai'r tawelwch melys aros yn hir. 'Oes na bobol?' meddai'r cyfarchiad wrth ddrws y cefn.

'Dyma fi, ar dy alwad di...' meddwn innau braidd yn anniolchgar dan fy ngwynt.

Ddylwn i ddim gyffesu'n gyhoeddus i bethau fel hyn mi wn. Ond roedd yna elfen ynof oedd yn dyheu am funud heb i unrhyw un dorri ar y tawelwch hudol. Dim Cwpan y Byd. Ddim rhagor o sylwebwyr pêl droed yn canmol Harry Kane, gwrthrych newydd eu mawl. Dim rhagor o eilun addoliaeth nac o glywed darogan sylwebwyr pêl droed bod *Un-gyrland* ar fin droedio i'r oes aur newydd sydd ar wawrio. Ddim mwy o hanesion am Mr Trump na Brexit na Mr Putin, nac am ddylanwad Rwsia, na brad cynllun y morglawdd gwyrdd.

A heno nid oedd taw ar fwrllwm lleferydd Wil Tyddyn Ganol. Wedi holi a stilio, a chytuno'i fod yn haf neilltuol o boeth, poethach na hafau a fu mae'n siŵr, daeth y gwron at ei fater.

Roeddwn wedi sylwi pan gyrhaeddodd bod ganddo bapur newydd yn cosi ei gesail. Mae'n amlwg, nad oeddwn i'n dilyn ei sgrïpt ddychmygol nac yn chwarae fy rhan yn natblygiad y ddrama fawr.

'Ti 'di gweld hwn,' meddai, wedi blino aros.

'Methu'i weld heb sbectol,' medda fi.

'Reit. Ddarllena i o i ti felly!'

A chan glirio'i wddw fel pe bai ar lwyfan y Brifwyl dechreuodd ddarllen.

'Cafodd Tito ac Amanda Watts eu harestio yn Fflorida am werthu tocynnau aur oedd yn addo y byddent yn sicrhau mynediad i'r nefoedd i'w prynwyr.

Roedd bob tocyn yn cael ei werthu am \$99.99 ac yn ôl y gwerthwyr cafodd pob un tocyn ei gynhyrchu o aur pur. Ond nid eu gwerth masnachol oedd eu gwir werth. Oherwydd os byddai'r prynwr yn cario'r tocyn gwerthfawr, gydag ef neu hi, wrth iddynt groesi'r lordonen i'r breswylfa dragwyddol byddai pyrth y nef yn agor ar unwaith i groesawu'r deiliad.'

'Sa'n well i ti beidio â cholli dy waled' medda Wil yn ddadansoddol ddoeth, fath a ryw Guto Harri angylaidd.

'Oeddwn i'n meddwl,' medda fi'n torri ar ei draws...Doeddwn innau ddim am ymddangos yn anwybodus. Ac roeddwn innau wedi darllen erthyglau'r Goleuad am y Diwygiad Protestannaidd Hydref diwethaf, 'le, oeddwn i'n meddwl mai trio gwerthu ffordd i'r nefoedd achosodd y rhwyg fawr rhwng yr Eglwys Gatholig a'r Protestaniaid.'

'Ti'n iawn' medda fo heb ei ysgwyd gan yr ymyrraeth a'r llifeiriant o wybodaeth annisgwyl.

'Ti'n gwbod tan llynedd,' medde fo eto, 'heb y Goleuad mi faswn i'n dal i feddwl mai'r un peth oedd Lwffa yn y bath a Luther y diwygiwr. Piti bod pregethwyr ddim yn siarad yn gliriach!

Rŵan paid a thorri ar fy nhraws eto!' Ac yn ôl a fo at yr adroddiad yn y papur newydd.

'Does dim ots gen i,' meddai Tito, 'beth ddwedodd yr heddlu – roedd y tocynnau yn aur pur. Fe ges i nhw gan lesu y tu ôl i KFC (Kentucky Fried Chicken) ac fe ddywedodd wrthyf am eu gwerthu er

mwyn i mi fedru gael arian i fynd i'r gofod. Wnes i gwrdd â dyn o'r gofod o'r enw 'Stevie' ac fe addawodd os medrwn i gasglu'r arian y byddai'n mynd a fi a fy ngwraig i blaned oedd wedi ei wneud yn llwyr allan o gyffuriau. Ddylech chi arestio lesu', meddai Tito. 'Nid fi. Achos fo roddodd y tocynnau aur i mi. Dwi'n fodlon gwisgo gwifren (microffon) er mwyn dal lesu a'i gynllwyn'.

Dywedodd Amanda ei wraig. 'Isio gadael y byd oedden ni er mwyn cymryd cyffuriau. Wnes i ddim byd ond gwyllo. Tito werthodd y tocynnau.'

Yn ôl yr heddlu yn Fflorida daethant o hyd i \$10,000 mewn arian parod, offer cyffuriau a babi aligator.'

'Be wnei di o'r fath beth?'

'Dwli,' meddwn i. 'Swreal. Be' di'r dyddiad ar dop y papur newydd. Tin siŵr mai nid stori ffug ydy o, neu dric Ffŵl Ebrill?'

Anwybyddodd fy nghwestiwn yn llwyr.

'Ti'n gwbod pam fod hwn wedi fy ysgwyd?' meddai. 'Nid bod dyn wedi trio creu 'timeshare' ym mharadwys. Mae 'na ddigon o bobl wedi trio gwerthu fflat i mi yn Magalwff yn Sbaen a thaeru y byddwn yn prynu rhan o baradwys ar y ddaear. Be sy'n ddwl ydy bod yna ddigon o bobl wedi ei gredu er mwyn iddo fedru crynhoi \$10,000.

'Ond' aeth yn ei flaen, 'be ti'n ddisgwyl os mai 'tocyn hud,' polisi yswiriant, traddodiad diwylliannol, sain heb sylwedd, gras rhad nid rhad ras, ydy sylwedd a mesur ein crefyddda mwyach!

Ac os nad oedd y rhaeadr rethregol yn ddigon i'm boddi, meddai. 'Y broblem yn y bôn ydy bod pobl ddim wedi deall beth ddisgrifiodd y diwinydd Joachim Jeremias yn 'gelebte Glaube' – profiad o'r Ysbryd Glân, ffydd go iawn wedi ei gyfieithu i fywyd bob dydd.'

'Athrylith', medde fi'n dawel fach. Cyn newid y pwnc. Achos bydde wynebu beth ddwedodd o braidd yn chwyldroadol i fi, ac i'n capel bach ni hefyd!

Wynne Elis

Môr o Blastig!! (parhad)

Mater arall eto yw dod o hyd i ffyrdd o wared y plastig yn lân ac yn effeithiol. Ail-gylchu yw'r ffordd orau heb os, ond os mai dim ond 9% o blastig yn unig gall Llywodraeth San Steffan lwyddo i'w ail-gylchu, pa obaith sydd i wledydd tlawd ein byd? Beth am ysgolion, ysbysai, swyddfeydd, ffermydd ac eglwysi? Ymrwymodd Undeb Bedyddwyr Cymru yn ei chynhadledd i ymwrthod â'r defnydd o blastig yn ei swyddfa, gan alw ar ein heglwysi i wneud yr un peth.

Pwyswyd ar lywodraethau lleol a chenedlaethol i ddatgan polisïau cadarnhaol i wahardd y defnydd o blastig, ac i sicrhau arfer dda. Mae'r her hon yn hawlio ein hymdrech ni i wared y byd o'r fath berygl. Beth amdani?



Gallwn ond wneud ein gorau i warchod y ddaear, un darn o blastig ar y tro.

Denzil I. John, Caerdydd

(Wedi ei addasu a'i gyhoeddi trwy ganiatâd Seren Cymru. Ymddangosodd yr erthygl yn rhifyn 29 Mehefin 2018)

Gol. Tybed pa un o gapeli EBC fydd y cyntaf i hawlio ei fod yn 'Gapel di-blastic'?